NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Cabozantinib ar gyfer carsinoma celloedd arennol datblygedig heb eu trin

3 Hydref 2018

Mae Cabozantinib (Cabometyx) ar gael gan y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â charsinoma celloedd arennol canolradd neu risg isel heb ei drin.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Ymchwil Arennau y DU, 0300 303 1100
- Rhwydwaith Cymorth Canser yr Aren, 01209 890326 0000

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3110-1

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights